

Kier Construction Western & Wales

## The Bevan Health & Wellbeing Centre

ISSUE 04



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government



Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Aneurin Bevan  
University Health Board

**Welcome to the fourth joint edition of the Tredegar Health and Wellbeing Centre newsletter from Kier Construction Western and Wales, in partnership with Aneurin Bevan University Health Board (ABUHB).**

**We are pleased to announce that the site has officially been named as The Bevan Health & Wellbeing Centre.**

The new facility, which is due to be completed in April 2023, will provide a comprehensive range of Primary Care, Community, Social Care and Wellbeing services together in one place for local residents.

Following a public discussion on the official name of the centre, The Bevan Health & Wellbeing Centre was chosen by Ann Lloyd CBE, Chair of Aneurin Bevan University Health Board, and Glyn Jones, Interim Chief Executive, from a selection of suggested titles.

Ann Lloyd CBE, Chair of Aneurin Bevan University Health Board, said:

*"We received some excellent name suggestions for the new building, but The Bevan Health and Wellbeing Centre seemed the most fitting for a centre built in the hometown of the founder of the NHS."*

Glyn Jones, Interim Chief Executive of Aneurin Bevan University Health Board, said:

*"It was an honour to be able to choose the name of the centre, and we're thrilled to see the construction of this fantastic new facility, which will offer excellent health care services closer to residents' homes."*

### Project Update

The site has changed dramatically since photographs were last taken

back in November 2021, with an impressive steel frame and concrete flooring now in place. To keep people up to date with the development we have recently taken some new photos and video footage of the site 'beyond the hoarding' to document the construction progress.

To view these and to stay up to date on build progress, future events, and opportunities to get involved, visit the Aneurin Bevan University Health Board website at [The Bevan Health and Wellbeing Centre - Aneurin Bevan University Health Board \(nhs.wales\)](https://www.nhs.wales/the-bevan-health-and-wellbeing-centre)

Works are now progressing on the envelope of the building. The Cladding, flat roofing and window installation works will be the next significant activities to commence and are due to start during May and early June.



Heart Building works are also ongoing with the building now strapped to the main steel frame. The next phase of works is to remove the old roof and internal partitions and install a new steel support frame inside the structure, which will ultimately carry the new roof.

The new drainage connections into Market Street have now been completed and Kier would like to take this opportunity to thank the residents for their co-operation and patience during this period.

### GP Service Update

Whilst works are ongoing on the Tredegar Health and Wellbeing Centre, we will still be providing services as usual and we will keep

you updated on arrangements as we transition to the new build.

### Community Engagements

You may have noticed some colourful additions to the hoarding around our site. A big thank you to Glanhowy Primary school, Bryn Bach Primary school, Deighton Primary school, St Joseph's Primary school and Georgetown Primary school for sending in their fantastic artwork! Thank you to Jellyfish Art who created the amazing montage of Tredegar landmarks.

Smaller versions of the images are being installed on the rear side of the GP surgery, to allow you to view whilst staying away from the busy main road.

Welsh artist, Nathan Wyburn has been commissioned to create the artwork for the new Health and Wellbeing centre. As part of the project's community benefits, Nathan will be hosting art workshops with local schools in the area starting in June.



A big thank you to our subcontractors Rob Morris Groundworks and ETS for

working alongside us on the Health and Wellbeing Centre build for their generous donation to the local Women's Aid refuge. The residents used the donated supermarket gift voucher to buy ingredients for an Easter roast dinner, to cook and enjoy together.

If you would like us to consider an engagement/initiative with you, please contact Jessica O'Donnell on [Jessica.o'donnell@kier.co.uk](mailto:jessica.odonnell@kier.co.uk)





Kier Construction Cymru a'r Gorllewin

## Canolfan Iechyd a Lles Bevan

ISSUE 04



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government



Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Aneurin Bevan  
University Health Board

**Croeso i bedwerydd rhifyn  
newyddlenni Canolfan Iechyd a  
Lles Tredegar gan Kier Construction  
Cymru a'r Gorllewin mewn  
partneriaeth â Bwrdd Iechyd  
Prifysgol Aneurin Bevan (BIPAB).**

### Mae'n bleser gennym gyhoeddi bod y safle wedi cael ei enwi'n swyddogol yn Canolfan Iechyd a Lles Bevan.

Y cyfleuster newydd, sydd i fod i gael ei gwblhau ym mis Ebrill 2023, yn cynnig amrywiaeth cynhwysfawr o wasanaethau Gofal Sylfaenol, Cymunedol, Gofal Cymdeithasol a Lles ar gyfer trigolion lleol mewn un lle淮wylus.

Yn dilyn trafodaeth gyhoeddus am enw swyddogol y ganolfan, dewiswyd Canolfan Iechyd a Lles Bevan gan Ann Lloyd CBE, Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, a Glyn Jones, y Prif Weithredwr Interim, o ddetholiad o enwau a gynigiwyd.

Dyweddodd Ann Lloyd CBE, Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan: "Cawsom awgrymiadau bendigedig am enwau posibl i'r adeilad newydd, ond i ni, Canolfan Iechyd a Lles Bevan oedd yr enw gorau ar gyfer canolfan a adeiladwyd yn nhref enedigol sylfaenydd y GIG."

Dyweddodd Glyn Jones, Prif Weithredwr Interim Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan: "Roedd hi'n anrhhydedd cael dewis enw'r ganolfan, ac mae'n hyfryd cael gweld y gwaith adeiladu ar y cyfleuster newydd bendigedig yma a fydd yn darparu gwasanaethau gofal rhagorol yn agosach at filltir sgwâr ein trigolion."

### Newyddion am y Prosiect

Mae'r safle wedi newid yn ddramatig ers i ni dynnu'r lluniau diwethaf nôl ym

mis Tachwedd 2021, ac mae'r ffrâm ddur drawiadol a'r lloriau concrit bellach yn eu lle. Er mwyn dangos y datblygiadau diweddaraf, rydym ni wedi tynnu lluniau newydd a chreu fideos o'r safle 'y tu ôl i'r byrddau palis i ddogfennu hynt a helynt y gwaith adeiladu.

I weld y rhain a chael y newyddion diweddaraf am hynt y gwaith, digwyddiadau'r dyfodol a chyfleoedd i gymryd rhan, ewch i wefan Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn [Canolfan Iechyd a Lles Bevan - Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan \(nhs.wales\)](#)

Mae'r gwaith ar amgaead yr adeilad yn datblygu. Y gwaith i osod y cladin, y to gwastad a'r ffenestri fydd y cam pwysig nesaf, a bydd hyn yn cychwyn ym mis Mai neu ddechrau mis Mehefin.



Mae'r gwaith ar Galon yr Adeilad yn parhau hefyd, ac mae'r adeilad wedi cael ei rwymo wrth y ffrâm ddur erbyn hyn. Y cam nesaf yw tynnu'r hen do a'r paredau mewnl a gosod ffrâm ateg ddur newydd y tu fewn i'r strwythur, a fydd yn dal y to newydd yn y pen draw.

Mae'r cysylltiadau draenio newydd yn Stryd y Farchnad wedi cael eu cwblhau a hoffai Kier fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i'r trigolion am eu hamynedd a'u cydweithrediad yn ystod y cyfnod hwn.

### Gwasanaethau Meddyg Teulu

Tra bod y gwaith yn mynd yn ei flaen yng Nghanolfan Iechyd a Lles Tredegar, byddwn ni'n parhau i ddarparu gwasanaethau fel arfer, a byddwn ni'n rhoi gwybod i chi beth fydd y trefniadau wrth i ni bontio i'r adeilad newydd.

### Cysylltu â'r Gymuned

Efallai eich bod wedi sylwi ar ambell

i ychwanegiad lliwgar at y byrddau palis sy'n amgylchynu'r safle. Diolch o galon i Ysgol Gynradd Glanhwi, Ysgol Gynradd Bryn Bach, Ysgol Gynradd Deighton, Ysgol Gynradd Sant Joseff ac Ysgol Gynradd Georgetown am rannu eu campweithiau celf â ni! A diolch i Jellyfish Art am greu'r montage anhygoel o dirnodau Tredegar.

Mae fersiynau llai o'r delweddau'n cael eu gosod y tu ôl i'r feddygfa fel y gallwch eu gweld heb orfol poeni am y briffordd brysur.

Comisiynwyd yr artist Cymreig, Nathan Wyburn, i greu gwaith celf ar gyfer y ganolfan Iechyd a Lles newydd. Yn rhan o fanteision cymunedol y prosiect, bydd Nathan yn cynnal gweithdai celf gydag ysgolion lleol yn yr ardal a fydd yn dechrau ym mis Mehefin.



Diolch o galon i'n hisgontactwyr, Rob Morris Groundworks ac ETS am weithio ochr yn ochr â ni ar y gwaith i adeiladu'r Ganolfan Iechyd a Lles ac am eu rhodd hael i'r lloches Cymorth i Fenywod yn lleol. Defnyddiodd y trigolion y tocyn rhodd o'r archfarchnad i brynu cynhwysion ar gyfer cinio rhost, i'w goginio a'i fwynhau gyda'i gilydd dros y Pasg.

Os ydych chi am i ni ystyried cyfle i gysylltu/menter gyda chi, cysylltwch â Jessica O'Donnell yn [Jessica.odonnell@kier.co.uk](mailto:Jessica.odonnell@kier.co.uk).

